| Cyngor Sir CEREDIGION County Council | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Craffu |
| **DYDDIAD:** | Mawrth yr 2il 2022 |
| **LLEOLIAD:** | Rhithiol |
| **TEITL:** | Dogfen Egwyddorion a disgwyliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Diweddaru'r Pwyllgor craffu o Egwyddorion a disgwyliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Diweddariad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **CEFNDIR:** | |

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru yn rhan o'r rhaglen diwygio addysg ehangach yng Nghymru. Mae hyn yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae Cod gorfodol yn cyd-fynd ag ef sy'n sicrhau bod gan y system newydd gyfres o baramedrau clir y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol lle mae'n rhaid i ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu.
Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol https://gov.wales/additional-learning-needs-code
Cod ADY – Darpariaeth o 0-25.

**Nod y dull newydd, fel y nodir yn y Cod, yw:**
'Cefnogi'r gwaith o greu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael mynediad i addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i gymryd rhan, elwa ar ddysgu a'i fwynhau.'

Mae'r fframwaith statudol newydd yn seiliedig ar y 5 egwyddor ganlynol:
a) **Dull sy'n seiliedig ar hawliau** lle mae barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhieni/gofalwyr neu berson ifanc y plentyn yn ganolog i gynllunio a darparu cymorth.
b) **Nodi, ymyrryd yn gynnar a chynllunio pontio effeithiol.**
c) **Cydweithio** lle mae pawb sy'n gysylltiedig yn cydweithio er lles gorau'r plentyn neu'r person ifanc
d) **Addysg gynhwysol** sy'n cefnogi cyfranogiad yn llawn mewn addysg brif ffrwd, lle bynnag y bo'n ymarferol ac ymagwedd lleoliad cyfan i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.
e) **System ddwyieithog** lle cymerir pob cam rhesymol i ddarparu ALP yn Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

| |
|---|
| Mae’r rhaglen trawsnewid ADY yn weithredol ar draws Ceredigion.<br>O dan y system ADY newydd, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i adolygu’r trefniadau a wneir gan ysgolion i fodloni anghenion dysgwyr sydd ag ADY.  Y ddogfen **Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion** yw’r arweiniad strategol ar gyfer ein hysgolion.<br>Mae’r ddogfen hon yn rhan annatod o fframwaith yr awdurdod er mwyn bodloni anghenion yr holl blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed.  Mae’n cyflawni rôl hanfodol yng ngwaith yr awdurdod i sicrhau safonau uchel i bawb, ac mae’n cyd-fynd yn agos â pholisïau ar gyfer cynhwysiant a gwella ysgolion. |
| **Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:** |

**Datganiad Gweledigaeth ADY Ceredigion**

Mae Ceredigion wedi ymrwymo i greu amgylcheddau addysgol sy’n meithrin cydnerthedd ac sy’n hyrwyddo annibyniaeth, gan alluogi pob plentyn a pherson ifanc i ffynnu a llwyddo, byw bywydau llawn ac ystyrlon, a dod yn aelodau a chyfranwyr gwerthfawr yn eu cymuned leol.

**Nodau ADY Ceredigion**

Fel rhan o’n proses o drawsnewid i’r system ADY, ein nod yw datblygu ein harfer dda presennol fel yr awdurdod mwyaf cynhwysol yng Nghymru, gan gynnwys egwyddorion pob Deddf sy’n effeithio ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.

Ein nod yw sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Ceredigion yn teimlo’n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod rhywun yn gwrando ar eu llais a’u bod yn teimlo ymdeimlad o berthyn i’w lleoliad addysgol, a fydd mor lleol ag y bo modd wrth fodloni eu hanghenion mewn ffordd briodol er mwyn eu galluogi i sicrhau cynnydd a mwynhau eu dysgu trwy sicrhau bod y canlynol ar gael mewn ysgolion:

- addysgu o ansawdd uchel sy’n gynhwysol ac sy’n gwahaniaethu ar gyfer pob dysgwr sydd ag anawsterau dysgu, gan gynnwys y rhai y nodwyd bod ganddynt ADY;
- dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn tuag at ddarparu gwasanaeth a threfniadau lle y mae dysgwyr a rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn ystod pob cam;
- amrediad o raglenni ymyrraeth wedi’u targedu sy’n cynorthwyo pob dysgwr sydd ag anawsterau dysgu, gan gynnwys y rhai y nodwyd bod ganddynt ADY;
- systemau effeithiol er mwyn monitro cynnydd a chyflawniad dysgwyr sydd ag ADY a’u cynhwysiant ym mywyd bob dydd yr ysgol;
- trefniadau cydweithio er mwyn cynnwys arbenigwyr mewn achosion pan fo hi’n briodol gwneud hynny;
- trefniadau er mwyn adolygu effeithiolrwydd ymyriadau a ddefnyddir er mwyn cynorthwyo dysgwyr sydd ag ADY a sgiliau ac arbenigedd staff.

**Diben y ddogfen Egwyddorion a Disgwyliadau Ceredigion**

O dan y system ADY newydd, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i adolygu’r trefniadau a wneir gan ysgolion i fodloni anghenion dysgwyr sydd ag ADY.  Mae’r ddogfen hon yn amlinellu egwyddorion a disgwyliadau Awdurdod Ceredigion ynghylch addysgu plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).  Yn ogystal, mae’n cynnig eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan ysgolion prif ffrwd, wrth fodloni anghenion dysgwyr sydd ag ADY, a chaiff ei hadolygu gan yr awdurdod.  Diben yr adolygiad yw pennu a yw’r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer dysgwyr yng Ngheredigion yn ddigonol, er mwyn bodloni anghenion cyffredinol ei phoblogaeth o ddysgwyr sydd ag ADY.

Mae’r ddogfen hon yn rhan annatod o fframwaith yr awdurdod er mwyn bodloni anghenion yr holl blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed.  Mae’n cyflawni rôl hanfodol yng ngwaith yr awdurdod i sicrhau safonau uchel i bawb, ac mae’n cyd-fynd yn agos â pholisïau ar gyfer cynhwysiant a gwella ysgolion.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau dan Ddeddf ADY a chydymffurfio â'i hegwyddor sylfaenol, sef addysg gynhwysol, dylai pob ysgol gymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau darpariaeth sy'n bodloni anghenion dysgwyr sydd ag ADY.
Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r hyn y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY.

Fe'i rhannwyd yn dri maes, fel a ganlyn:

1. **Cynhwysiant –** creu amgylcheddau dysgu cynhwysol a defnyddio addysgeg gynhwysol er mwyn bodloni anghenion amrywiol pob dysgwr.

2. **Anghenion Dysgu Ychwanegol –** nodi rhwystrau sy'n atal dysgu a phennu anghenion dysgu ychwanegol mewn ffordd fanwl.

3. **Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol –** safonau gofynnol er mwyn darparu cymorth sy'n ychwanegol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol neu sy'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol.

Bydd y system ADY newydd yn gweithredu ochr yn ochr â'r system AAA, yn ystod y cyfnod trawsnewid tair blynedd 2021-2024.

Mae'r canllaw gweithredu ar gyfer 2021 a 2022 yn rhannu disgyblion yn 4 grŵp:

| | |
|---|---|
| Grŵp 1 | **Plant sydd yn newydd i'r system**<br>Bydd y system ADY yn cychwyn ar **1 Medi 2021 neu 1 Ionawr 2022** ar gyfer plant sydd newydd eu hadnabod fel rhai sydd ag ADY hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10. |
| Grŵp 2 | **Plant a gedwir yn gaeth** – cychwynnodd y darpariaethau ADY ar **1 Medi 2021** ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol a gedwir yn gaeth, neu ar gyfer plant a gedwir yn gaeth ar ôl 1 Medi 2021. |
| Grŵp 3 | Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac nad ydynt yn derbyn gofal neu nad ydynt yn mynychu mwy nag un lleoliad.<br>Bydd plant yn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol yn 2021 i 2022 yn **symud i'r system ADY rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Awst 2022:**<br>**Blynyddoedd Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10.** |
| Grŵp 4 | Plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu UCD ac sy'n **derbyn gofal** neu sydd **wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad**. Bydd plant yn un o'r blynyddoedd gorfodol canlynol yn 2021 i 2022 yn **symud i'r system ADY rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Awst 2022: Blynyddoedd Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10.** |

<table>
<tr><td colspan="3">Bydd dogfen Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion yn cael ei chyflwyno i'r cabinet maes o law ac yn weithredol ar draws ein hysgolion.<br>Mi fyddwn yn darparu adolygiad o'r cynllun gweithredu a'r ddogfen egwyddorion a disgwyliadau yn flynyddol.</td></tr>
<tr><td rowspan="7">LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:</td><td>Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam</td><td>Mae'r Asesiad ar waith, ac yn rhan o'r broses ymgynghori..</td></tr>
<tr><td colspan="2">Crynodeb: Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru yn cynnig fframwaith statudol newydd er mwyn cynorthwyo plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae Cod gorfodol yn cyd-fynd â'r fframwaith hwn, sy'n sicrhau bod y system newydd yn cynnwys set glir o baramedrau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, y mae'n rhaid i ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag ADY weithredu o'u mewn.</td></tr>
<tr><td>Hirdymor:</td><td>Bydd y ddogfen Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion yn amlinellu egwyddorion a disgwyliadau Awdurdod Ceredigion ynghylch addysgu plant a phobl ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Yn ogystal, mae'n cynnig eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan ysgolion prif ffrwd wrth fodloni anghenion dysgwyr sydd ag ADY.</td></tr>
<tr><td>Cydweithio:</td><td>Bydd cydweithio rhwng partneriaid a rhan-ddeiliaid yn greiddiol i'r cynllun. Y cydweithio pennaf fydd rhwng swyddogion yr awdurdod a'r ysgolion a'u cyrff llywodraethol yn ogystal â rhieni drwy ymgynghoriadau lleol.</td></tr>
<tr><td>Cynnwys:</td><td>Bydd rhan-ddeiliaid a phartneriaid yn cael eu cynnwys ar hyd y cyfnod cynllunio ac ymgynghori.</td></tr>
<tr><td>Atal:</td><td>Bydd y dulliau gweithredu fydd yn atal unrhyw broblemau allai godi neu waethygu drwy gyfnod y cynllun, wedi eu nodi ynddo.</td></tr>
<tr><td>Integreiddio:</td><td>Yn ei hanfod mae'n cynorthwyo wrth greu system addysg gwbl gynhwysol lle y rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg, a'i mwynhau.</td></tr>
<tr><td colspan="3">ARGYMHELLION:</td></tr>
</table>

| |
|---|
| **i)** I gytuno i fabwysiadu cynnwys y ddogfen Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion.<br>ii) Bod unrhyw sylwadau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel gwelliannau i'r Cynllun, ac yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet er gwybodaeth<br>iii) Bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn Egwyddorion a Disgwyliadau ADY Ceredigion yn cael ei gyflwyno i'r Ysgolion, a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet |
| **RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** |
| I gydymffurfio gyda gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Meinir Ebbsworth<br><br>Gillian Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Ysgolion<br><br>Rheolwr Corfforaethol ADY, Cynhwysiant a Lles |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | Ionawr 2021 |
| **Acronymau:** | ADY- Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>AAA- Anghenion Addysg Arbennig<br>CADY- Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>CDU- Cynllun Datblygu Unigol |